

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deisebau, Adroddiad ar Ddeiseb P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y safonau lles uchaf yn cael eu cynnal ar gyfer anifeiliaid, ym mhob cam o'u bywyd. Mae gennym rai o'r safonau uchaf yn y byd ac mae lles anifeiliaid mewn lladd-dai yn bwnc rydym o ddifri yn ei gylch.

Mae gan ein lladd-dai mwyaf, sef lle mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid yn cael eu prosesu, deledu cylch cyfyng (CCTV) eisoes ac maen nhw'n cadw at y protocol a ddatblygwyd ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrrff y diwydiant, gyda'u cytundeb, fel bod milfeddygon swyddogol yn cael gweld lluniau'r CCTV. Yn ôl [arolwg gan yr Asiantaeth](#) yn 2016, amcangyfrifir yng Nghymru a Lloegr bod 92% o wartheg, 96% o foch, 88% o ddefaid a 99% o ddofednod yn cael eu prosesu mewn lladd-dy â rhyw fath o CCTV ynddo. ¹

Mae yna 24 o ladd-dai yng Nghymru: Mae un deg naw yn prosesu cig coch (pedwar mawr, chwe chanolig a naw bach eu maint) a phump yn prosesu dofednod (tri mawr, un canolig ac un bach). Mae gan un deg un ohonynt CCTV (gan gynnwys pob un o'r lladd-dai dofednod). Nid oes gan naw o'r lladd-dai cig coch bach a phedwar o'r rhai canolig CCTV ar hyn o bryd.

Ym mis Medi 2018, daeth cyfle i ddatgan diddordeb yn y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) ar gyfer lladd-dai bach a chanolig. Mae'r cyfnod ymgeisio hwnnw newydd ddod i ben. Mae prosiectau sy'n cynnwys buddsoddi i ddiogelu lles anifeiliaid, fel gosod neu wella CCTV, yn cael blaenoriaeth.

Ni all CCTV gymryd lle monitro uniongyrchol gan reolwyr y lladd-dy neu filfeddygon swyddogol, yn enwedig mewn lladd-dai bach iawn, ond maen nhw'n gallu cynnig tystiolaeth wrthrychol o arfer da. I ddiogelu lles anifeiliaid, rhaid wrth wybodaeth a diwylliant sy'n parchu anifeiliaid. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus i'r cynllun yn cael cyngor gan arbenigwr ar sut i symud a rheoli anifeiliaid mewn lladd-dy.

Yn ogystal â'r FBIS, mae rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru (FSC) o dan nawdd Lantra yn helpu busnesau prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru i sicrhau bod gan eu gweithwyr y sgiliau a'r hyfforddiant iawn. Mae FSC yn gweithio gyda Shropshire Training i roi hyfforddiant 'Lles Anifeiliaid adeg eu Lladd' i fusnesau sy'n gwneud cais am hyfforddiant hyd at Fawrth 2021. Mae FSC yn ystyried hefyd datblygu cyrsiau eraill ar les anifeiliaid ar gyfer lladd-dai i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu trin yn gywir ac yn cael y gofal priodol cyn eu lladd.

Mae'r FSA wrthi'n ymchwilio i ladd-dy Farmers Fresh yn Wrecsam. Tra bo'r ymchwiliad yn mynd yn ei blaen, mae'n amhosibl imi gynnig sylw ar y mater. Ond rwyf wedi cwrdd â'r FSA i sicrhau eu bod yn delio â'r mater mewn ffordd sy'n adlewyrchu difrifoldeb y cyhuddiadau a'r dystiolaeth ategol.

¹ Canlyniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd o Arolwg CCTV 2016 mewn lladd-dai yng Nghymru a Lloegr, 2016

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu Hadroddiad ar deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai. Rwy'n ymateb i argymhellion yr Adroddiad isod.

Dyma ymateb manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn orfodol i osod a chynnal systemau teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys pob rhan o'r adeilad sy'n ymwneud â dal neu brosesu anifeiliaid byw, a dylid ategu hyn gan ofynion o ran lleoliad a gweithredu camerâu, cadw a storio recordiadau, ac argaeledd recordiadau i'w harchwilio.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf wedi dweud o'r blaen fy mod yn ystyried deddfu i sicrhau bod CCTV yn cael ei ddarparu yn holl ladd-dai Cymru. Fodd bynnag, rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda gweithwyr lladd-dai mewn ffordd gefnogol, i wireddu'r un amcan. Ni chaiff penderfyniad i gyflwyno deddfwriaeth i wneud CCTV yn orfodol ei wneud tan i'r holl geisiadau i'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ar gyfer lladd-dai bach a chanolig, gan gynnwys maint a graddfa'r buddsoddiadau, gael eu hasesu.

Goblygiadau Ariannol: Byddai goblygiadau ariannol i ladd-dai o wneud CCTV yn orfodol. Byddai gofyn ystyried hyn fel rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd, neu gorff priodol arall, yn cael lefel ddigonol o adnoddau i fonitro a gorfodi'r system fonitro teledu cylch cyfyng newydd mewn lladd-dai yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gweler fy ymateb i Argymhelliad 1.

Goblygiadau Ariannol: Dygir y costau o gyllidebau rhaglenni sy'n bod eisoes.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cael lefel ddigonol o adnoddau i wneud ei gwaith i sicrhau lles anifeiliaid yng Nghymru, gan

ystyried amcangyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd o ran y gost ar gyfer darparu rheolaethau swyddogol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r arian a ddarperir i'r FSA gan Lywodraeth Cymru yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan gymryd i ystyriaeth amcangyfrif o gostau'r flwyddyn i ddod a thystiolaeth cyllidebau blaenorol. Mae hyn yn sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu darparu i'r asiantaeth allu gwneud ei dyletswyddau'n effeithlon a sicrhau bod safonau lles anifeiliaid yn cael eu cynnal at lefel uchel.

Goblygiadau Ariannol: Dygir y costau o gyllidebau rhaglenni sy'n bod eisoes.

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end of the name.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig